WHC(2017)008

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 8 Mawrth 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:** Polisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion

**Dyddiad dod i ben / Adolygu**
Fel bo angen

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

**Angen gweithredu erbyn:**
Ar unwaith

**Anfonir gan:**
Roger Perks, Pennaeth Gofal heb ei Drefnu

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Heather Giles, Cyflawni a Pherfformio, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 03000 256485 E-bost: HSS.Performance@gov.wales

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Polisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion

**Crynodeb**

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi Polisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion.

2. Mae'r fersiwn hwn o'r polisi yn disodli'r holl fersiynau blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Gweithredu**

3. Mae'r polisi'n ailganolbwyntio ar yr angen i gyflawni dychweliadau o fewn 24 awr i amser datgan bod y claf yn addas ar gyfer ei drosglwyddo er mwyn gwella llif cleifion, a bod gweithdrefnau uwchgyfeirio i gael eu hysgogi ar ôl 48 awr. Disgwylir bod gan yr holl fyrddau iechyd drefniadau yn eu lle i ateb gofynion y polisi hwn.

4. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn defnyddio Cronfa Ddata Dychwelyd GIG Cymru, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Rhaid cadw pob cofnod yn gyfredol er mwyn sicrhau bod y data sy'n cael ei fwydo i mewn i Ddangosfwrdd y Gofal heb ei Drefnu yn adlewyrchu'r wir sefyllfa.

5. Disgwylir i bob Bwrdd Iechyd reoli'r dychweliadau gyda'u sefydliad partner perthnasol ac osgoi trafod ar yr Alwad Gynadleddol Weithredol, ddyddiol, am 11.00 y bore, gan mai fforwm ar gyfer trafodaeth strategol ac **nid** gweithredol ddylai hon fod.

**Cefndir**

6. Datblygwyd polisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion yn 2012 gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o GIG Cymru. Adolygwyd y polisi a'i ailgyhoeddi ym mis Mehefin 2014, ac fe'i hadolygwyd unwaith eto ym mis Tachwedd 2016.

7. Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Heather Giles, Uwch Reolwr Gofal Brys, Darparu a Pherfformio ar 03000 256485 neu e-bost: HSS.Performance@gov.wales.

**Dosbarthu i:**

**Ysgrifenyddion, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion Byrddau:**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Athrofaol Powys
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru

Ysgrifennydd i Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau
HSS.Performance@gov.wales

**Llywodraeth Cymru**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Prif Weithredwr, GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Prif Swyddog Meddygol
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Digidol, Newid ac Arloesi
Penaethiaid Gofal Brys a Gofal heb ei Drefnu

Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu

# Polisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

# Dychwelyd cleifion unigol Cymru Gyfan

## Crynodeb:

### Diben

Mae'r polisi hwn yn atgyfnerthu'r amserlen **24 awr**, ar ôl i'r claf gael ei ddatgan yn ffit i'w drosglwyddo, i ddychwelyd cleifion unigol o fewn Cymru i Fwrdd Iechyd eu hardal breswyl arferol.

### Cwmpas

Mae'n ymwneud â symud cleifion rhwng Byrddau Iechyd, pan fo'r claf angen gofal parhaus (nad yw wedi'i gynnwys mewn Cytundeb Hirdymor (LTA) presennol) ac mae'r claf yn ffit i'w drosglwyddo. Nid yw'n cynnwys trosglwyddiadau o fewn Byrddau Iechyd, ac nid yw ychwaith yn ymdrin â rheoli'r gofal cymdeithasol, gofal nyrsio neu ofal preswyl a ddarperir.

### Perthnasedd

Dylai'r Bwrdd Gweithredol, y rheolwyr gweithrediadau (mae hyn yn cynnwys gofal sylfaenol a chymunedol / ysbytai) a'r rheiny sy'n gyfrifol am reoli gwlâu ddarllen y polisi hwn. Bydd angen i Fyrddau Iechyd weithio mewn partneriaeth â'u hadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol lleol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau o ran gofal cymdeithasol sy'n deillio o'r polisi hwn**.**

### Effaith

Mae dychweliad amserol yn golygu y bydd y claf yn y lle iawn ac yn derbyn y gwasanaeth mwyaf addas. Mae hyn yn golygu gwell profiad i gleifion. Mae dychwelyd cleifion yn effeithiol yn hanfodol i wneud y defnydd gorau o'r gwlâu. Pan fydd dychweliad yn digwydd mewn modd amserol bydd yn cynyddu'r hygyrchedd at wasanaethau trydyddol ac yn cynnal llif y cleifion.

### Gweithredu

Rhaid bod gan yr holl Fyrddau Iechyd ar draws Cymru gynlluniau yn eu lle i dderbyn eu cleifion o fewn 24 awr ar ôl iddynt gael eu datgan yn ffit i'w trosglwyddo.

**Diwygiadau** i'r **Polisi**
Cyhoeddwyd y Polisi: **xx** Chwefror 2017.
Mae hwn yn disodli polisïau dychwelyd a gynhyrchwyd yn 2012 a 2014.

## Diffiniadau:

**Dychweliad** – Cleifion unigol y mae angen iddynt gael eu trosglwyddo yn ôl i Fwrdd Iechyd eu hardal breswyl arferol, p'un a ydynt yn derbyn gofal trydyddol, gofal argyfwng, gofal brys neu ofal critigol.

**Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo** - Ysbytai sy'n derbyn cleifion, nad ydynt yn byw yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl), ar gyfer gwasanaethau gofal trydyddol, gofal argyfwng, gofal brys neu ofal critigol.

**Y Bwrdd Iechyd sy'n Derbyn** – Yr ysbytai a'r cyfleusterau gofal iechyd a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn yr ardal lle mae'r claf yn byw.

**Cronfa Ddata Dychwelyd** – Y gronfa ddata a ddatblygwyd gan GIG Cymru fel offeryn rheoli i olrhain llif priodol cleifion rhwng Byrddau Iechyd. Bydd hefyd yn darparu data ar gyfer dadansoddi'r dyddiau gwely a gollwyd. Rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chadw yn y gronfa ddata hon gydymffurfio â safonau Caldicott a Rheoli Gwybodaeth.

## Datblygu'r Polisi:

Datblygwyd y polisi hwn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dychwelyd ym mis Rhagfyr 2012, fe'i hadolygwyd ym mis Mehefin 2014 ac unwaith eto ym mis Tachwedd 2016. Mae'r fersiwn hwn o'r polisi yn cymryd lle'r holl fersiynau blaenorol.

- **Diwygiad Mehefin 2014 - newidiadau:**
  - Egwyddorion, bwledi ychwanegol 6 a 9
  - Swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredu

- **Diwygiad Chwefror 2017 – newidiadau:**
  - Newidiadau i dudalen 2, aildrefnu a newid i baragraffau 6 a 7
  - Sail resymegol, aileirio paragraff 1, ychwanegu paragraff 2
  - Egwyddorion, newid pwynt bwled 8
  - Uwchgyfeirio, newid paragraff 1, ychwanegu paragraff 4
  - Rheoli Heintiau, newid paragraff 1
  - Cronfa Ddata Dychwelyd, ychwanegu'r adran hon
  - Atodiad 3, ychwanegwyd Canllawiau Cronfa Ddata Dychwelyd

**Cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru:**


**Heather Giles** heather.giles@gov.wales.
03000 256485

**Leigh Davies** leigh.davies@gov.wales.
03000 253118

# 1. Cyflwyniad

Pan fo'n glinigol ddiogel a phriodol, dylai cleifion gael eu rhyddhau i'w cartref pryd bynnag y bo modd. Pan nad yw hyn yn bosibl ac mae eu dychwelyd/derbyn i'r ysbyty yn syth yn angenrheidiol, rhaid i'r Byrddau Iechyd weithio mewn partneriaeth er budd gorau'r cleifion.
Mae dychweliad amserol yn well o safbwynt profiad y claf, ond nid yw ar hyn o bryd yn digwydd mewn modd amserol. Mae dychwelyd cleifion yn effeithiol yn hanfodol er mwyn cynyddu i'r eithaf y gwlâu sydd ar gael, ac mae'n gwneud yr holl wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau trydyddol, yn fwy hygyrch.
Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r cyfrifoldebau a osodwyd ar y Byrddau Iechyd yng Nghymru i ddychwelyd cleifion o fewn **uchafswm o 24 awr** ar ôl i'r claf gael ei ddatgan yn ffit i'w drosglwyddo. Mae hyn yn cynnwys cleifion sydd wedi'u derbyn i ysbyty y tu allan i Fwrdd Iechyd eu hardal breswyl arferol, p'un a ydynt yn derbyn gwasanaethau gofal trydyddol, gofal argyfwng, gofal brys neu ofal critigol.
Mae'r polisi hefyd yn diffinio'r mecanweithiau y cytunwyd arnynt ar gyfer:

- Dychwelyd cleifion;
- Amserlenni; a'r
- Prosesau uwchgyfeirio i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo yn brydlon yn ôl i'w Bwrdd Iechyd lleol neu gyfleuster GIG addas pan fydd hynny'n glinigol briodol.

# 2. Sail Resymegol

Pan nad yw cleifion yn cael eu dychwelyd mewn modd amserol, mae hyn yn cael effaith negyddol ar brofiad y claf, ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y claf hwnnw, ac ar gleifion eraill sy'n disgwyl am driniaethau. Dylai cleifion sy'n cael eu derbyn i ysbytai y tu allan i'r ardal lle maent yn byw, ar gyfer gofal trydyddol, gofal argyfwng, gofal brys neu ofal critigol, gael eu dychwelyd i'w Bwrdd Iechyd lleol pan fydd y canlynol i gyd yn wir:

- Gall y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn ddarparu'r lefel o ofal clinigol y mae arnynt ei angen;
- Mae eu cyflwr yn sefydlog ac maent yn glinigol ffit i deithio;
- Mae eu triniaeth, o ran yr arbenigedd, oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu derbyn i ganolfan drydyddol, wedi ei chwblhau; ac
- Mae cynllun rheoli clir parhaus wedi ei ddatblygu gan yr ysbyty sy'n trosglwyddo.

<u>Meddygol ffit i gael eu trosglwyddo i'w Bwrdd Iechyd eu hunain</u>

- Mae ymgynghorydd y claf yn gwybod bod y claf yn cael ei ryddhau ac yn cytuno â'r penderfyniad hwn. Gall y cofrestrydd wneud y penderfyniad hwn ar ran yr ymgynghorydd pan fydd ef yn absennol;
- Nid oes ar y claf angen gofal trydyddol neu arbenigol acíwt pellach;
- Mae'r claf wedi bod yn sefydlog dros y 24 awr ddiwethaf; ac
- Nid oes gan y claf friw sy'n gollwng nac unrhyw arwyddion o haint mewn clwyf (ar gyfer cleifion niwrolawdriniaethol).

Nid oes angen i gleifion aros mewn gwely trydyddol acíwt am y rhesymau canlynol:

- Ailwarffarineiddio – gellir gwneud hyn yn ysbyty ardal y claf;
- Haint ar y frest neu yn yr wrin neu driniaeth feddygol barhaus;
- Mae tîm amlddisgyblaethol wedi cynllunio i ryddhau'r claf;
- Cleifion sydd â thraceostomi; ac
- Adsefydlu arbenigol.

## 3. Yr egwyddorion sy'n sail i'r Polisi

Rhaid i'r holl Fyrddau Iechyd sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau hwy eu hunain yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn. Y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am ofal ei gleifion ei hun, pan fydd hi'n glinigol ddiogel ac addas iddynt ddychwelyd.

- Dylai'r holl gleifion gael dyddiad rhyddhau disgwyliedig / rhagdybiedig (ADD/EDD) pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.
- Rhaid i bob ysbyty nodi cleifion perthnasol ar gyfer eu dychwelyd. Rhaid paratoi pob claf a nodwyd ar gyfer ei ddychwelyd cyn y symudiad sydd wedi ei gynllunio.
- Pan fo'n glinigol ddiogel ac addas, rhaid rhyddhau cleifion i'w cartrefi o'r ysbyty sy'n trosglwyddo ac nid eu dychwelyd i'r ysbyty.
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sy'n trosglwyddo roi rhybudd ymlaen llaw cyn gynted ag y bo modd i'r Bwrdd Iechyd sy'n derbyn fod claf o'r tu allan i'w ardal wedi cael ei dderbyn a chyfleu iddynt y dyddiad y rhagdybir y bydd yn cael ei ddychwelyd.
- Rhaid i hyn gynnwys nodi'r dyddiad dychwelyd rhagdybiedig yn y ddogfennaeth dychwelyd.
- Mae'r polisi hwn yn cynnwys pob claf sy'n ffit i gael ei drosglwyddo yn ôl i'r Bwrdd Iechyd sy'n ei dderbyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys y cleifion hynny sydd angen eu hadsefydlu neu sydd ag anghenion rhyddhau cymhleth.
- Rhaid i'r disgwyl am wely adsefydlu beidio ag achosi oedi cyn dychwelyd. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sy'n derbyn fod yn barod i dderbyn y claf ac wedyn gwneud y trefniadau adsefydlu.
- Mae angen sicrhau y cynhelir trafodaethau yn fuan rhwng y Bwrdd Iechyd sy'n atgyfeirio a'r Bwrdd Iechyd sy'n derbyn ynglŷn ag unrhyw gleifion ag anghenion cymhleth fydd angen eu dychwelyd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw hyfforddiant arbenigol ac yn y blaen ddigwydd cyn y bydd y claf yn feddygol ffit i'w drosglwyddo.
- Dylid rhoi'r flaenoriaeth i gleifion sy'n dychwelyd dros dderbyniadau dewisol arferol.
- Rhaid i ysbytai sicrhau nad yw unrhyw gyfyngiadau, a osodir gan sgrinio MRSA, yn eu hatal rhag cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y protocol hwn (gweler adran 6).

- Rhaid dilyn yr amserlenni ar gyfer dychwelyd a amlinellir yn y polisi ar benwythnosau yn ogystal ag ar ddyddiau'r wythnos.
- Rhaid i'r dychweliad ddigwydd ar adeg resymol o'r dydd, gan gymryd buddiannau'r claf yn ogystal â buddiannau'r Bwrdd Iechyd i ystyriaeth.
- Pan fo gwely ar gael yn y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn ond bod y Bwrdd Iechyd sy'n dychwelyd yn methu â throsglwyddo'r claf, rhaid cofnodi hyn yn y gronfa ddata dychwelyd. Bydd hyn yn golygu na fydd y claf yn colli ei le yn y rhestr ddychwelyd.
- Rhaid dogfennu pob rheswm dros uwchgyfeirio a chyfyngu yn y gronfa ddata dychwelyd.
- Rhaid i Fyrddau Iechyd fod wedi sefydlu prosesau effeithiol ar gyfer hysbysu WAST cyn gynted ag y bo modd os bydd angen canslo neu aildrefnu ambiwlans ar gyfer dychwelyd. Gall methiant i ganslo ambiwlans arwain at sefyllfa lle na ellir trosglwyddo claf arall.

## 4. Egwyddorion Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru (WAST) ynghylch trosglwyddo cleifion sy'n dychwelyd

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru (WAST) yn deall bod angen dychwelyd cleifion mewn modd amserol a bydd yn rhoi'r flaenoriaeth i ddychwelyd cleifion cyn belled ag y bo'n weithredol bosibl. Nid yw'n dderbyniol i ofyn am ambiwlans brys i gyflawni taith ddychwelyd. Mae angen yr ambiwlansys brys ar gyfer galwadau 999.

- Bydd WAST yn derbyn archebion oddi wrth Fyrddau Iechyd i ddychwelyd cleifion hyd 4.00 o'r gloch y prynhawn ar y diwrnod cyn dyddiad y daith;
- Mae gwasanaeth ambiwlans cyfyngedig, sydd heb fod yn un brys, yn cael ei gomisiynu gan Fyrddau Iechyd ar benwythnosau ac felly, lle mae dychweliad yn debygol o gael ei gyflawni ar y penwythnos neu ar ŵyl gyhoeddus, bydd angen cysylltu'n fuan â WAST er mwyn ei gwneud yn bosibl ffitio'r daith i mewn.
- Mae WAST yn ymroi i annog Byrddau Iechyd i archebu ambiwlans ar gyfer dychwelyd yn fuan yn y broses o gynllunio i ryddhau claf. Os caiff dychweliad cynlluniedig claf ei ganslo, rhaid rhoi gwybod ar unwaith i WAST a bydd yn ad-drefnu taith y claf fel sy'n ofynnol.

## 5. Uwchgyfeirio

Os bydd y claf, sydd wedi ei ddatgan yn ffit i'w drosglwyddo, yn dal i ddisgwyl cael ei ddychwelyd ymhen dros **48 awr,** dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Gweithrediadau perthnasol a bydd yn ofynnol iddo drefnu'r dychweliad gyda'r swyddog cyfatebol yn yr ysbyty sy'n derbyn.

Os bydd y sefyllfa yn parhau i fod heb ei datrys ymhen **72 awr** ar ôl hysbysiad bod y claf yn ffit i'w ddychwelyd, rhaid uwchgyfeirio'r sefyllfa i sylw Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer camau pellach.

Bydd cronfa ddata o'r holl ddychweliadau yn cael ei chynnal gan bob sefydliad. Bydd hyn yn galluogi Byrddau Iechyd i gyfrif faint o ddyddiau gwely a gollwyd bob mis oherwydd dychweliadau anamserol. Dylid coladu'r wybodaeth hon a'i thrafod yn fewnol a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru pan ofynnir amdani.

Sylwer: Dylai'r Alwad Gynadleddol Weithredol, ddyddiol am 11 y bore fod yn fforwm ar gyfer trafodaeth strategol ac **nid** gweithredol.

## 6. Rheoli Heintiau / Ynysu

Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd sy'n trosglwyddo yw hysbysu'r Bwrdd Iechyd sy'n derbyn os oes gan y claf unrhyw haint hysbys neu angen cael ei ynysu.

Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd sy'n trosglwyddo yw hysbysu WAST, a'r Bwrdd Iechyd sy'n derbyn, am unrhyw heintiau eraill cysylltiedig â gofal iechyd neu glefydau heintus a all gael eu trosglwyddo i gleifion yn y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn oni chymerir camau rhagofal priodol i atal a rheoli heintiau.

## 7. Cronfa Ddata Dychwelyd

Datblygwyd Cronfa Ddata Dychwelyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Rhaid i'r holl Fyrddau Iechyd ddefnyddio hon a chadw'r cofnodion yn gyfredol.

Atodiad 1 – mae'n dangos y meysydd angenrheidiol o fewn y Gronfa Ddata Dychwelyd.

Atodiad 2 – mae'n nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau staff allweddol wrth iddynt fabwysiadu'r polisi dychwelyd.

Atodiad 3 – mae'n nodi'r canllawiau ar gyfer defnyddio'r Gronfa Ddata Dychwelyd.

## 8. Trefniadau Arbennig

### Grŵp Arbennig – Trigolion Lleol yn cael eu Trosglwyddo o Dramor

- Os oes gan y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn y cyfleusterau sydd eu hangen, dylid derbyn y claf ar gyfer ei drosglwyddo.
- Os oes angen mynediad i ganolfan arbenigol, dylai'r ysbyty lleol dderbyn yr atgyfeiriad a threfnu'r atgyfeiriad trydyddol, er y gall y claf fynd yn syth i'r ganolfan arbenigol.

# Atodiad 1 – Ffurflen Ddychwelyd Cymru Gyfan

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Cais: | |
| Dyddiad Uwchgyfeirio: | |
| Enw: | |
| Dyddiad Geni: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif Ysbyty: | |
| Materion Rheoli Haint: | |
| Diagnosis: | |
| Dyddiad Rhyddhau Rhagdybiedig: | |
| **Trosglwyddo o:** | |
| Y Bwrdd Iechyd sy'n Trosglwyddo: | |
| Enw'r Ymgynghorydd: | |
| Ward: | |
| **Trosglwyddo i:** | |
| Y Bwrdd Iechyd sy'n Derbyn: | |
| Enw'r Ymgynghorydd: | |
| Ward: | |
| Yr Offer sy'n Ofynnol | |
| Gwybodaeth Ychwanegol: POVA ac yn y blaen | |
| Oes modd i'r claf gael ei drosglwyddo ar y penwythnos? | |
| **Rhoddwyd y Manylion Trosglwyddo gan:** (enw a rhif cyswllt) | |
| **Derbyniwyd ar ran yr Ysbyty sy'n Derbyn gan:** (enw a rhif cyswllt) | |

# Atodiad 2 – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Staff Allweddol

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

### 1 Prif Swyddogion Gweithrediadau

- Atebol am ddychwelyd cleifion yn effeithiol o'u Bwrdd Iechyd ac yn ôl iddo

### 2 Y Nyrs sy'n Derbyn/Rhyddhau

- Wrth dderbyn claf, bydd y nyrs yn nodi'r ysbyty y bydd y claf yn cael ei ddychwelyd iddo ac yn dogfennu hynny yn nodiadau'r claf.
- Pan fydd y claf yn cael ei ystyried yn ffit i'w ddychwelyd, cynhelir trafodaeth ynghylch y cynlluniau i'w ryddhau gyda'r claf, y gofalwr a'r teulu a dogfennir hyn yn y nodiadau nyrsio.
- Cwblhau'r ddogfennaeth dychwelyd (Atodiad 1) er mwyn sicrhau manylion clinigol cadarn i wneud yn siŵr bod y gofal yn parhau.
- Anfon y ddogfennaeth dychwelyd i'r Tîm Rheoli Gwlâu.
- Ar ôl cael cadarnhad gan y Tîm Rheoli Gwlâu bod gwely ar gael, cysylltu â'r ward dderbyn gan roi diweddariad ar gyflwr y claf a'i anghenion gofal.
- Archebu cludiant priodol.
- Cadarnhau'r trefniadau rhyddhau gyda'r claf, y gofalwr a'r teulu.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth briodol yn cael ei hanfon gyda'r claf.

### 3 Yr Ymgynghorydd neu ei Ddirprwy Enwebedig

- Awdurdodi dychweliad y claf.
- Amlinellu'r gofal claf mewnol parhaus y bydd ei angen a chadarnhau ei bod yn bosibl darparu hyn yn lleol yn ardal breswyl y claf.
- Cadarnhau'r Ymgynghorydd a'r Ysbyty sy'n Derbyn.
- Cadarnhau a dogfennu yn nodiadau meddygol y claf ei fod yn ffit i gael ei drosglwyddo.

### 4 Y Tîm Rheoli Gwlâu

- Trafod yn ddyddiol gyda'r Tîm Rheoli Gwlâu perthnasol yn yr ysbyty sy'n derbyn ynglŷn â'r gwlâu sydd ar gael.
- Darparu gwybodaeth glinigol a chymdeithasol berthnasol i hyrwyddo dychweliad amserol a sicrhau bod gofal y claf yn parhau wrth iddo ddychwelyd.
- Darparu adroddiad statws dyddiol ar y ffurflen ddychwelyd a'r gronfa ddata dychwelyd
- Uwchgyfeirio unrhyw oedi cyn dychwelyd fel y diffiniwyd yn y polisi hwn.

# Atodiad 3 – Canllawiau ynghylch y Gronfa Ddata Dychwelyd

Er mwyn bod o gymorth i reoli gweithrediadau dychwelyd cleifion yn GIG Cymru, cafodd modiwl newydd ei greu o fewn system bresennol Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC). Mae'r modiwl newydd hwn yn hwyluso casglu eitemau data er mwyn ei gwneud yn bosibl rhannu'r wybodaeth a'r adroddiadau gofynnol i fod o gymorth i reoli'r dychweliadau. Diffiniad dychweliad ym mholisi dychwelyd cleifion GIG Cymru yw'r canlynol:

Dychweliad – Cleifion unigol y mae angen iddynt gael eu trosglwyddo yn ôl i Fwrdd Iechyd eu hardal breswyl arferol, p'un a ydynt yn derbyn gofal trydyddol, gofal argyfwng, gofal brys neu ofal critigol.

**Cyfrifoldeb yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo, sy'n gwneud cais i ddychwelyd claf i Fwrdd Iechyd ei ardal breswyl, yw cofnodi eitemau data 1 – 12**

**Cyfrifoldeb yr Ysbyty sy'n Derbyn, sy'n derbyn preswylydd pan fydd yn dychwelyd i'w Fwrdd Iechyd, yw cofnodi eitemau data 13 – 18 (gall yr ysbyty sy'n trosglwyddo hefyd gofnodi eitemau data 15 a 16)**

**Gall yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo a'r Ysbyty sy'n Derbyn ddefnyddio'r maes testun rhydd (eitem ddata 18).**

| Rhif yr eitem ddata | Eitem ddata | Fformat | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Enw'r Ysbyty sy'n Trosglwyddo* | 5 nod alffaniwmerig | Yr ysbyty presennol lle mae'r claf yn cael ei drin.<br>Codau Sefydliadau Cymru i roi'r rhestr gwympo.<br>Bydd cod ac enw'r ysbyty yn ymddangos yn y rhestr gwympo. |
| 2 | Enw'r Ward | Testun rhydd | Y ward y mae'r claf yn cael ei drin ynddi ar hyn o bryd |
| 3 | Math o Ward | Testun | Y math o ward y mae'r claf yn cael ei drin ynddi. Rhestr gwympo fel a ganlyn: Acíwt, Iechyd Meddwl Cymunedol, Adsefydlu, Arall |
| 4 | Dyddiad Atgyfeirio'r Dychweliad* | Fformat y dyddiad – dd/mm/bbbb | Y dyddiad y nodwyd bod y claf yn feddygol ffit ac yn barod i'w ddychwelyd i Fwrdd Iechyd ei ardal breswyl. Yn unol â pholisi dychwelyd cleifion GIG Cymru, rhaid bod gan yr holl Fyrddau Iechyd ar draws Cymru gynlluniau yn eu lle i dderbyn eu cleifion yn ôl o fewn 24 awr i'r amser y cawsant eu datgan yn ffit i'w trosglwyddo.<br>*Pan gofnodir y dyddiad hwn yn y system rhaid iddo fod yr un fath â dyddiad heddiw.* |
| 5 | Yr amser y gwnaed cais am Atgyfeirio Dychweliad * | HHMM | Rhestr gwympo o Oriau a Munudau. Defnyddir yr eitem ddata hon ynghyd â Dyddiad Atgyfeirio'r Dychweliad i adrodd am y dychweliadau sy'n agored am > 24, > 48 a > 72 awr i gefnogi'r broses uwchgyfeirio fel y'i diffinnir ym mholisi dychwelyd cleifion GIG Cymru. |
| 6 | Enw'r Ysbyty sy'n Derbyn * | 5 nod alffaniwmerig | Yr ysbyty y dychwelir y claf iddo. Edrych yn ffeil Codau Sefydliadau Cymru.<br>Bydd cod ac enw'r ysbyty yn ymddangos yn y rhestr gwympo.<br>*Dylai'r Dyddiad Derbyn fod yn fwy neu yn gyfartal â Dyddiad Atgyfeirio'r Dychweliad.* |
| 7 | Rhif y GIG* | 10 digid | Fel yng Ngeiriadur Data GIG Cymru. Cofnodwch "Anhysbys" os nad yw rhif y GIG ar gael. |
| 8 | Enw cyntaf* | Maes testun – 50 o nodau | |
| 9 | Cyfenw* | Maes testun – 40 o nodau | |
| 10 | Dyddiad Geni* | Fformat y dyddiad – dd/mm/bbbb | Fel yng Ngeiriadur Data GIG Cymru. |
| 11 | Cyfeiriad * | Maes testun – 255 o nodau | |
| 12 | Cod Post* | 8 alffaniwmerig | |
| 13 | Yr Arbenigedd sy'n Derbyn | 3 digid rhifol | Yr Arbenigedd y mae'r claf i gael ei ddychwelyd iddo. Fel Cod Swyddogaeth Triniaeth Arbenigol yng Ngeiriadur Data GIG Cymru. Bydd cod ac enw'r arbenigedd yn ymddangos yn y rhestr gwympo. |
| 14 | Rheswm dros Oedi | 2 ddigid rhifol<br>01 – Angen rhagor o wybodaeth<br>02 – Dim gwlâu ar gael<br>03 – Dim yn feddygol ffit yn awr<br>04- Claf wedi marw | I'w gwblhau os na fydd yr ysbyty sy'n derbyn yn derbyn y dychweliad o fewn 24 awr i ddyddiad atgyfeirio'r dychweliad.<br>*Os bydd y claf wedi marw dylid cofnodi dyddiad ei farwolaeth ym maes y dyddiad trosglwyddo.* |
| 15 | Dyddiad Derbyn | Fformat y dyddiad – | Y dyddiad y cafodd y dychweliad a atgyfeiriwyd ei dderbyn gan yr ysbyty |

| Rhif yr eitem ddata | Eitem ddata | Fformat | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | Atgyfeiriad | dd/mm/bbbb | sy'n derbyn. (Gall yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo roi hwn i mewn hefyd)<br>*Pan gofnodir Dyddiad Derbyn Atgyfeiriad mae'n rhaid llenwi meysydd yr Arbenigedd sy'n Derbyn a'r Clinigwr sy'n Derbyn* |
| 16 | Y Clinigwr sy'n Derbyn | Maes testun rhydd – 100 o nodau | Enw'r clinigwr sy'n derbyn yn yr ysbyty sy'n derbyn. (Gall yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo roi hwn i mewn hefyd) |
| 17 | Dyddiad Trosglwyddo | Fformat y dyddiad – dd/mm/bbbb | Dyddiad trosglwyddo'r claf i'r ysbyty sy'n derbyn. Unwaith y bydd y dychweliad wedi ei gwblhau nid adroddir mwy amdano.<br>*Dylai'r Dyddiad Trosglwyddo fod yn fwy neu yn gyfartal â Dyddiad* Atgyfeirio'r *Dychweliad* |
| 18 | Nodiadau | Maes testun rhydd | |

## Trosglwyddo Dychweliad i Fwrdd Iechyd

Er mwyn cofnodi dychweliad bydd yr ysbyty sy'n trosglwyddo yn dewis – Dychweliad – Trosglwyddiadau Allan Actif/i Ddod. Cliciwch ar mewnosod cofnod dychweliad a rhowch eitemau data 1 -12 i mewn fel y dangoswyd yn y tabl ar dudalen un, gan ddefnyddio'r sgrin ganlynol. Pan fydd cofnod yn Actif neu i Ddod, bydd Manylion yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo a Manylion y Claf yn weladwy i'r Bwrdd Iechyd sy'n Trosglwyddo allan.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

*Datblygiad*

**System Oedi wrth Drosglwyddo Gofal**

NHS CYMRU WALES

**Emergency Pressures | Welsh Assembly Government | HOWIS | Log Off**

**Prif Ddewislen** > **Cynnal Dychweliadau – Trosglwyddiadau allan Actif** >
**Cofnod Dychwelyd**

**Manylion yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo**

**Enw'r Ysbyty *** 7A6BG - Aberbargoed & District Hospital

**Enw'r Ward**

**Math o Ward** Please select from the list below

**Dyddiad Atgyfeirio Dychweliad *** **[dd/mm/bbbb]** **Amser Atgyfeirio Dychweliad *** Awr: 00 Munud: 00

**Enw'r Ysbyty sy'n Derbyn** 7A3FV - Caswell Clinic, South Wales Forensic & Psychiatric

**Manylion y Claf**

**Rhif y GIG ***

**Enw(au) Cyntaf ***

**Cyfenw ***

**Dyddiad Geni *** **[dd/mm/bbbb]**

**Cyfeiriad**

**Cod Post ***

**Nodiadau**

**Ychwanegwch Nodyn**

(15000 o nodau ar gyfer cyfanswm y nodiadau)

**Parod i'w Drosglwyddo?** ☐

Save Details Cadw'r Manylion

*** Meysydd Gorfodol Sylfaenol**

# Adolygu Trosglwyddiadau sydd wedi Cau.

I'r ddau Fwrdd Iechyd sy'n ymwneud â dychweliad y claf yn unig y mae'r holl fanylion yn weladwy, yr un pryd, unwaith y bydd cofnod y Dychweliad wedi ei gau (h.y. Dyddiad Trosglwyddo wedi ei gwblhau). I edrych ar y manylion dewiswch Dychweliad – Trosglwyddiadau allan wedi Cau. Cliciwch ar gofnod y claf a bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos:

**Prif Ddewislen** > **Cynnal Dychweliadau – Trosglwyddiadau allan wedi Cau**
**> Cofnod Dychweliad**

**Manylion yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo**

**Enw'r Ysbyty *** 7A697 - Bronllys Hospital (Mental Health)

**Enw'r Ward**

**Math o Ward** Please select from the list below

**Dyddiad Atgyfeirio'r Dychweliad *** 30/04/2015 **[dd/mm/bbbb]** **Amser Atgyfeirio'r Dychweliad *** Awr: 14 Munud: 10

**Enw'r Ysbyty sy'n Derbyn** RLQ01 - Hereford County Hospital

**Manylion y Claf**

**Rhif y GIG *** 333445

**Enw(au) Cyntaf *** iiiiii

**Cyfenw *** ooooo

**Dyddiad Geni *** 01/04/1998 **[dd/mm/bbbb]**

**Cyfeiriad** Test address

**Cod Post *** SA17 5B

**Manylion yr Ysbyty sy'n Derbyn**

**Yr Arbenigedd sy'n Derbyn** 101 | Urology

**Rheswm dros Oedi** Requires further information

**Dyddiad Derbyn yr Atgyfeiriad** 30/04/2015 **[dd/mm/bbbb]**

**Y Clinigwr sy'n Derbyn** Dr Drrrrr

**Dyddiad Trosglwyddo** 30/04/2015 **[dd/mm/bbbb]**

**Nodiadau**

*** Meysydd Gorfodol Sylfaenol**

## Derbyn Dychweliad i mewn i Fwrdd Iechyd

**Dewiswch** Dychweliad - Trosglwyddiadau i mewn i Ddod/wedi Cau Wedyn bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos. Bydd y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn yn rhoi eitemau data 13 – 17 i mewn fel yn y tabl ar dudalen 1 sy'n ymddangos o dan y pennawd Manylion yr Ysbyty sy'n Derbyn **(caiff yr ysbyty sy'n trosglwyddo hefyd roi eitemau data 15 – 16 i mewn).** Pan fydd cofnod i ddod, yna bydd Manylion yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo, Manylion y Claf, a Manylion yr Ysbyty sy'n Derbyn yn weladwy i'r Bwrdd Iechyd sy'n Derbyn i mewn.

*Datblygiad*

**System Oedi wrth Drosglwyddo Gofal**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

NHS CYMRU WALES

**Emergency Pressures | Welsh Assembly Government**

**HOWIS | Log Off**

**Prif Ddewislen** > **Cynnal Dychweliadau – Trosglwyddiadau i mewn i Ddod**
**> Cofnod Dychweliad >**

**Manylion yr Ysbyty sy'n Derbyn**

**Yr Arbenigedd sy'n Derbyn** 000 | Please select from the list below

**Rheswm dros Oedi** Please select a delay reason

**Dyddiad Derbyn yr Atgyfeiriad** **[dd/mm/bbbb]**

**Y Clinigwr sy'n Derbyn**

**Dyddiad Trosglwyddo** **[dd/mm/bbbb]**

**Nodiadau**

**Ychwanegwch Nodyn**

15000 o nodau ar gyfer cyfanswm y nodiadau)

Save Details Cadw'r manylion

# Adrodd

## Adolygu adroddiad am ddychweliadau yn trosglwyddo allan o Fwrdd Iechyd

Dewiswch Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau allan, a bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos. Bydd y golofn ar y chwith yn arddangos eicon i fod o gymorth gyda'r broses uwchgyfeirio fel yr amlinellwyd ym mholisi dychwelyd GIG Cymru. Er mwyn adnabod y cofnodion hyn yn gyflym, defnyddir yr eiconau lliw canlynol fel arwydd o'r math o gofnodion.

- 24 eicon ambr
- 48 eicon coch

- 72 eicon du

**[Prif Ddewislen](#) > Adroddiadau Dychwelyd > Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau allan**

*Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau allan*

## Actif

| | Enw'r Claf | Rhif y GIG | Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo | Dyddiad / Amser Dychwelyd | Yr Ysbyty sy'n Derbyn | Yr Arbenigedd i'w atgyfeirio iddo | Rheswm dros Oedi | Dyddiad Derbyn Atgyfeirio Dychweliad | Clinigwr sy'n Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| +72 | John Johns | 678678967867 | Ysbyty Cymunedol Cas-gwent (7A6BJ) | 29/04/2015 19:15 | Ysbyty Brenhinol Alexandra (7A1A5) | Ffarmacoleg Clinigol | | 29/04/2015 00:00 | Dr Jones |
| +72 | testfname3 testsname 3 | 43543543 | Ysbyty'r Tri Chwm (7A6FR) | 28/04/2015 17:05 | Ysbyty Prifysgol Llandochau (7A4C1) | Llawfeddyg-aeth y Galon | | 29/04/2015 00:00 | Y Clinigwr sy'n Derbyn 3 |
| +72 | Edna Ednason | 13453124516 | Ysbyty Llandrindod (Iechyd Meddwl) (7A699) | 30/04/2015 00:10 | Ysbyty Prifysgol Cymru (7A4BV) | Gastro-enteroleg | Dim gwlâu ar gael | 30/04/2015 00:00 | Dr Foster |

## I ddod

| | Enw'r Claf | Rhif y GIG | Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo | Dyddiad / Amser Dychwelyd | Yr Ysbyty sy'n Derbyn | Yr Arbenigedd i'w atgyfeirio iddo | Rheswm dros Oedi | Dyddiad Derbyn Atgyfeirio Dychweliad | Clinigwr sy'n Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| +72 | AAAtest777 BBB777 | 543534777 | Mitchell Close (7A6GV) | 26/04/2015 06:15 | Ely Houses (7A3GT) | Llawfeddygaeth y Galon | Dim gwlâu ar gael | 30/04/2015 00:00 | Dr Clinigwr777 |

# Dychweliadau Bwrdd Iechyd –Trosglwyddiadau allan wedi Cau

Dewiswch Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau allan wedi Cau, a bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos

**[Prif Ddewislen](#) > Adroddiadau Dychwelyd > Dychweliadau Bwrdd Iechyd –Trosglwyddiadau allan wedi Cau**

*Dychweliadau Bwrdd Iechyd –Trosglwyddiadau allan wedi Cau*

| Enw'r Claf | Rhif y GIG | Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo | Dyddiad / Amser Dychwelyd | Yr Ysbyty sy'n Derbyn | Yr Arbenigedd i'w atgyfeirio iddo | Rheswm dros oedi | Dyddiad Derbyn Atgyfeirio Dychweliad | Clinigwr sy'n Derbyn | Dyddiad / Amser Trosglwyddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| testfname1 testsname1 | | Uned Gofal Iechyd Blaenafon (7A6E8) | 26/04/2015 00:00 | Ysbyty Abergele (7A1A2) | | Angen gwybodaeth bellach | | Clinigwr derbyn 1 | 28/04/2015 00:00 |
| testfname2 testsname2 | t6ertre | Ysbyty Aberbargoed a'r Cyffiniau (7A6BG) | 29/04/2015 00:00 | Ysbyty Abergele (7A1A2) | Wroleg | | 30/04/2015 00:00 | dsfdsfdsfdsf | 30/04/2015 00:00 |
| Jimzzz Jimminy | 888888888877 | Ysbyty St Woolos | 29/04/2015 15:45 | Ysbyty Abergele | Offthalmoleg | Angen gwyboda | 01/05/2015 00:00 | ytrytr | 15/05/2015 00:00 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (7A6AT) | | (7A1A2) | | eth bellach | | | |
| 777 888 | 45654654 6 | Ysbyty Coffa Sir Frycheiniog (Iechyd Meddwl) (7A698) | 14/05/20 15 03:00 | Canolfan Adnoddau Bro Hafren (Iechyd Meddwl) (7A194) | Llawfedd-ygaeth Llosgiadau | | 14/05/20 15 00:00 | dr no | 14/05/2015 00:00 |
| ytyt ytyt | 5445554 | Ysbyty Bronllys (Iechyd Meddwl) (7A697) | 14/05/20 15 01:00 | Clinig Caswell, Fforensig a Seiciatryddol De Cymru (7A3FV) | ENT | Angen gwybod-aeth bellach | 14/05/20 15 00:00 | trtrtrtr | 14/05/2015 00:00 |
| Jim jimany | 666 | Ysbyty Aberbargoed a'r Cyffiniau (7A6BG) | 01/05/20 15 10:15 | Clinig Caswell, Fforensig a Seiciatryddol De Cymru (7A3FV) | ENT | | 14/05/20 15 00:00 | tim timany | 15/05/2015 00:00 |

# Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau i mewn

O'r ddewislen, dewiswch Trosglwyddiadau i mewn, a bydd yr adroddiad canlynol yn ymddangos

**Prif Ddewislen** > **Adroddiadau Dychwelyd > Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau i mewn**
*Dychweliadau Bwrdd Iechyd – Trosglwyddiadau i mewn*

## I Ddod

| **Enw'r Claf** | Rhif y GIG | **Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo** | Dyddiad / Amser Dychwelyd | **Yr Ysbyty sy'n Derbyn** | Yr Arbenigedd i'w atgyfeirio iddo | **Rheswm dros Oedi** | Dyddiad Derbyn Atgyfeirio Dychweliad | Clinigwr sy'n Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Loiup Mikjn | 00000001 | Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy (7A1CC) | 13/05/2015 05:30 | Ysbyty Ystrad Mynach (7A6EE) | Rheoli Poen | | 13/05/2015 00:00 | Dr 1234 |

## Wedi Cau

| **Enw'r Claf** | Rhif y GIG | **Yr Ysbyty sy'n Trosglwyddo** | Dyddiad / Amser Dychwelyd | **Yr Ysbyty sy'n Derbyn** | Yr Arbenigedd i'w atgyfeirio iddo | **Rheswm dros Oedi** | Dyddiad Derbyn Atgyfeirio Dychweliad | Clinigwr sy'n Derbyn | Dyddiad / Amser Trosglwyddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Paul Paulina | 22233 | Ysbyty Tywysoges Cymru (7A3B7) | 30/04/2015 08:15 | Canolfan Adnoddau (Iechyd Meddwl) Hazels (7A696) | Offthalmoleg | Angen gwybodaeth bellach | 30/04/2015 00:00 | Dr Johnson | 09/05/2015 00:00 |
| Dave Davies | 121314 | Ysbyty Brynseiont (7A1E9) | 30/04/2015 11:15 | Ysbyty Bronllys (Iechyd Meddwl) (7A697) | Offthalmoleg | Claf wedi marw | 13/05/2015 00:00 | dr 234655767 | 13/05/2015 00:00 |
| Qwerty Perty | 5658565685 | Canolfan Adnoddau Bro Hafren (Iechyd Meddwl) (7A194) | 30/04/2015 10:40 | Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni (7A6TG) | Endocrinoleg | Dim yn feddygol ffit yn awr | 13/05/2015 00:00 | test | 13/05/2015 00:00 |
| Percy Percival | 1234561 | Ysbyty Bryn Beryl (7A1AX) | 14/05/2015 14:15 | Ysbyty St Woolos (7A6AT) | ENT | Dim yn feddygol ffit yn awr | 14/05/2015 00:00 | Dr Kildare | 14/05/2015 00:00 |